Cardiff and Vale University Health Board Voluntary Services

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
Cardiff and Vale University Health Board

GWIRFODDOLWR CYMORTH PROFEDIGAETH

Lleoliad
Ysbyty Athrofaol Cymru

Yn adrodd i
Nyrs Arweiniol Profedigaeth

Yn atebol i
Rheolwr Gwasanaethau Gwirfoddol

Ymrwymiad Amser
Isafswm o dair awr un diwrnod yr wythnos.

Gwiriadau Gofynnol
DBS, Iechyd Galwedigaethol, 2x geirda (a wneir gan y Tîm Gwasanaethau Gwirfoddol)

Treuliau
Caiff treuliau teithio i'r lleoliadau ac yn ôl ar ddiwrnod gwirfoddoli eu had-dalu

GOFYNION PERSONOL

- Meddu ar sgiliau gwrando rhagorol a bod yn anfeirniadol.
- Bod yn hyderus wrth gyfathrebu â defnyddwyr gwasanaeth, ymwelwyr, staff ac aelodau cyffredinol o'r cyhoedd.
- Bod yn frwdfrydig am nodau a gwaith BIP Caerdydd a'r Fro.
- Dangos lefelau o empathi a dealltwriaeth bob amser.
- Edrych yn drwsiadus, yn smart a gwisgo bathodyn adnabod Gwirfoddolwr y BIP bob amser.
- Cydnabod pryd i atgyfeirio materion a chwestiynau at staff y BIP.

NOD Y GWASANAETH

Nod y gwasanaeth y bydd y gwirfoddolwyr yn gwirfoddoli ar ei gyfer yw cefnogi perthnasau, gofalwyr a ffrindiau yn dilyn marwolaeth anwylyd.

AMLINELLIAD O'R DYLETSWYDDAU

Bydd gwirfoddolwyr yn gwneud galwadau ffôn i'r rhai mewn profedigaeth gan gynnig cefnogaeth, cyngor a chyfeirio at wasanaethau perthnasol yn y trydydd sector a gwasanaethau statudol yn ôl yr angen.

PRIF DASGAU

- Cysylltu â'r Gwasanaeth Cymorth Profedigaeth a chymryd cyfarwyddyd ynghylch pa unigolion y dylid cysylltu â nhw ar gyfer y gwasanaeth dilynol dros y ffôn.
- Mae sgiliau cyfathrebu da yn hanfodol, a bydd angen i wirfoddolwyr ofyn am ganiatâd llafar gan yr unigolyn sydd wedi mewn profedigaeth cyn bwrw ymlaen â'r alwad ffôn.
- Cwblhau'r daflen ddata briodol, gan wahodd yr unigolyn i roi adborth, a'u cyfeirio yn ôl yr angen.
- Cytuno gyda'r person ar y camau gweithredu cywir i'w cymryd os byddant yn datgelu unrhyw bryderon difrifol, neu os ydynt yn anfodlon â'r gofal neu'r driniaeth y maent wedi'i derbyn. Os ydych yn ansicr, trafodwch gyda'r Nyrs Arweiniol Profedigaeth beth yw'r camau gweithredu priodol i'w cymryd.
- Cadw at bolisïau cyfrinachedd, diogelu a GDPR BIP Caerdydd a'r Fro.
- Bydd y ffurflenni casglu data ar bapur, gyda gwybodaeth a gofnodwyd yn cael ei throsglwyddo i'r gronfa ddata cymorth profedigaeth gan aelod o'r Tîm Cymorth Profedigaeth. Mae angen i wirfoddolwyr fod yn ymwybodol y dylent fod yn fodlon neu'n gwybod sut i ddefnyddio dyfais electronig i gasglu data. Darperir hyfforddiant ar ddefnydd yr offer hwn.
- Bod yn fodel rôl cadarnhaol.

FFINIAU PWYSIG

Nid yw'r rôl yn cynnwys cefnogaeth bersonol.
Nid yw'r rôl yn cynnwys cefnogi'r rhai dan 18 oed.
Nid yw'r rôl yn caniatáu mynediad at wardiau / ardaloedd clinigol.
Mae angen i wirfoddolwyr ddeall ffiniau proffesiynol.
Nid yw'r rôl hon yn cynnwys cwnsela na therapi.

HYFFORDDIANT A CHYMORTH

Bydd angen i wirfoddolwyr ymgymryd â rhaglen Hyfforddiant ac Ymsefydlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ogystal â hyfforddiant cymorth profedigaeth sylfaenol, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch cyfeirio a chyngor sydd ar gael.

Caiff anghenion hyfforddi eu nodi drwy'r broses oruchwylio a'u diwallu drwy Raglenni Hyfforddi BIP Caerdydd a'r Fro.

GOFYNION ARBENNIG

- Hyderus wrth siarad ag ystod eang o ddefnyddwyr gwasanaeth a chyfathrebu ar adeg o sensitifrwydd eithafol.
- Meddu ar ddealltwriaeth dda o alar a phrofedigaeth a sut mae'r rhain yn effeithio ar unigolion mewn ffordd unigryw.
- Y gallu i gydnabod yr angen am hunanofal a phryd mae angen rhagor o gymorth.

MANTEISION I'R GWIRFODDOLWR

- Profiad o weithio mewn tîm.
- Y cyfle i ddatblygu sgiliau a phrofiad personol.
- Y cyfle i ddatblygu sgiliau cyfathrebu arbenigol.
- Boddhad o gynorthwyo eraill a darparu gwasanaeth amhrisiadwy i'r Bwrdd Iechyd a'r gymuned.

MANYLEB Y PERSON

Meini prawf	Hanfodol	Dymunol
Deall pwysigrwydd cyfrinachedd a dilyn gweithdrefnau	x	
Sgiliau cyfathrebu da	x	
Y gallu gweithio ar fy menter fy hun ac fel rhan o dîm	x	
Y gallu i siarad Cymraeg		x
Y gallu i gysylltu â sefydliadau trydydd sector a statudol os oes angen	x	
Dibynadwy a phrydlon	x	
Parodrwydd i ymgymryd â hyfforddiant	x	
Ar gael ar gyfer yr amseroedd gofynnol	x	
Amynedd a sensitifrwydd	x	
Profiad o weithio mewn lleoliad gofal iechyd		x
Profiad o brofedigaeth (proffesiynol a/neu bersonol)		x
Profiad o fod yn gyfaill		x
Profiad o wirfoddoli		x